**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 29 Tachwedd 2017

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Teitl:** Cynnal Hunanasesiad o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniad hunanasesiad o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Archwilydd Mewnol ddatblygu a chynnal rhaglen sicrhau ansawdd a gwella i werthuso cydymffurfiaeth â'r Safonau.

Mae rhaglen sicrhau ansawdd a gwella wedi'i chynllunio i alluogi gwerthusiad o gydymffurfiaeth y gweithgaredd archwilio mewnol â'r Safonau a gwerthusiad ynghylch a yw archwilwyr mewnol yn defnyddio'r Cod Moeseg. Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgaredd archwilio mewnol ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant. Mae gan y Pwyllgor rôl allweddol yn y rhaglen sicrhau ansawdd a gwella i ddarparu goruchwyliaeth.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar gynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd a Gwella (Atodiad 1).

**4. Manylion yr adroddiad**

Cynhaliodd y Pennaeth Archwilio Mewnol hunanasesiad o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn PSIAS yn 2014/2015. Adolygwyd a diweddarwyd hyn i adlewyrchu'r trefniadau presennol. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol yn gyffredinol ac yn dangos bod y Gwasanaethau Archwilio Mewnol 'yn cydymffurfio'n gyffredinol' â'r mwyafrif o'r safonau. Amlygodd rai meysydd o 'gydymffurfiaeth rannol' gyda'r safonau a gynhwysir yn y Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd a Gwella yn Atodiad 1.

Yn unol â'r safonau, rhaid i asesiadau allanol gael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan aseswr annibynnol cymwys neu dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad. Mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru wedi cydweithio i fabwysiadu ymagwedd adolygu cymheiriaid, lle bydd yr hunanasesiad yn cael ei ddilysu gan asesydd allanol. Bydd yr asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei gynnal gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gwynedd yng ngwanwyn 2018.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.